Cyngor Bro Llanllwni

Adroddiad Cyfarfod Mis Rhagfyr 2021

AGENDA
Roedd y Clerc wedi rhoi copi yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Roedd pob un a oedd yn bresennol yn dilyn rheolau cofid ac yn gwisgo mygydau. Cydymdeimlwyd â theulu Maes Nonni a Castle View ar eu profedigaeth. Dymunwyd gwellhad buan i Mair Davies, Abercwm, yn dilyn ysbaid yn yr ysbyty.
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion Mis Tachwedd 2021.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi. Hysbyswyd y cynghorwyr bod Ysgol Llanllwni yn ddiolchgar iawn i'r Cyngor Bro am gael defnyddio'r Cae Chwarae ac am adael y toiledau yno yn ystod y gaeaf. Roedd cloddiau'r cae chwarae wedi eu torri'n daclus gan Dyfrig a'r borfa wedi cael sylw gan Lyn Jones.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd y Clerc yn dal i ymchwilio i gwmnïau cymwys i ddatblygu'r wefan.

DIFFIBRILYDDION:
Roedd y Clerc wedi cofrestru'r diffibrilydd ar wal Festri Capel Nonni a'r gobaith oedd gosod un arall yn y pentref dan ofal y Cyngor Brro.

GOLEUADAU SOLAR
Cafwyd cadarnhad bod y goleuadau ger garej Llys-y-wawr bellach yn gweithio a bod ymchwil ar y gweill ynglŷn â safleoedd eraill.

GOLEUADAU STRYD
Cafwyd cadarnhad nad oedd y goleuadau ger Dolifor a Ffynnon-ddrain yn gweithio. Roedd yn cynghorwyr yn anfodlon am hynny.
Cafwyd cadarnhad nad oedd cwmni "Western Power" wedi ailosod y golau ger Yr Hen Swyddfa Bost. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â'r swyddog priodol i dderbyn rhagor o wybodaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf gan estyn pob dymuniad da am Nadolig Llawen.
Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 10 Ionawr 2022 am 7.30yh.